

Canllawiau Brand a Dylunio

Brand & Design Guidelines

Urdd Gobaith Cymru
2024



Cydnwys | Contents

3. Cyflwyniad i'r Urdd
Introduction to the Urdd
6. Y logo, Is-frandiau ac Ardaloedd
The logo, Sub brands and Regions
11. Lliwiau
Colours
15. Teipograffeg
Typography
18. Canllaw ysgrifennu
Writing Style guide
27. Defnydd Lluniau
Use of Images
23. Canva
31. Argraffu
Printing

Cysylltu â'r Urdd | Contacting the Urdd
dylunio@urdd.org

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Cyflwyniad i'r Urdd

| Introduction to the Urdd



Cyflwyniad i'r Urdd | Introduction to the Urdd

Sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru yn 1922 gan Syr Ifan ab Owen Edwards. Ei fwriad oedd gweld plant a phobl ifanc Cymru yn byw bywydau byrlymusrwyd gyfrwng y Gymraeg. Heddiw mae'r Urdd yn fudiad bywiog sy'n cynnig cyfleoedd a phrofiadau gwych i blant a phobl ifanc ar draws Cymru gyfan.

Mae'r Urdd yn fudiad unigryw ac yn cynnig profiadau chwaraeon, celfyddydol, preswyl, dyngarol, awyr agored, rhyngwladol, prentisiaethau a gwirfoddoli i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Crëwyd bathodyn trionglog yr Urdd yn 1944. Roedd pob lliw yr un arwynebedd â'i gilydd fel symbol bod tair elfen arwyddair gwreiddiol yr Urdd yr un mor bwysig â'i gilydd. Mae strategaeth ddiweddar a yr Urdd 'Urdd i Bawb' yn dangos yn glir ymrwymiad yr Urdd i sicrhau cyfleoedd i bawb a phwysigrwydd cydraddoldeb.

Urdd Gobaith Cymru was established in 1922 by Syr Ifan ab Owen Edwards. His mission was to see the children and young people of Wales live their lives to the full through the medium of Welsh. Today the Urdd is a vibrant organisation offering children and young people great opportunities and experiences across Wales.

The Urdd is a unique organisation which offers sporting, arts, residential, humanitarian, outdoor pursuits, international, apprenticeships and volunteering experiences for children and young people in Wales.

The Urdd triangular badge was created in 1944. Every colour is of the same surface which symbolises that the three elements of the Urdd's original motto were of the same importance. There Urdd's most recent strategy 'Urdd i Pawb' clearly shows the Urdd's commitment to ensuring opportunities for all and the importance of equality.

Yr Urdd mewn... | The Urdd in...

10 gair

Ni yw Urdd Gobaith Cymru.
Mudiad ieuencid mwyaf Cymru.

50 gair

Ni yw Urdd Gobaith Cymru.
Mudiad ieuencid mwyaf Cymru.

Ein nod yw sicrhau cyfleoedd
a phrofiadau, trwy gyfrwng yr
iaith Gymraeg, i holl ieuencid
Cymru ddatblygu'n ddinasyddion
cyflawn hyderus.

Rydym yn fudiad unigryw sy'n
cynnig profiadau chwaraeon,
celfyddydol, preswyl, dyngarol,
awyr agored, rhyngwladol,
prentisiaethau a gwirfoddoli i
blant a phobl ifanc yng Nghymru.

100 gair

Ni yw Urdd Gobaith Cymru.
Mudiad ieuencid mwyaf Cymru.

Ein nod yw sicrhau cyfleoedd
a phrofiadau, trwy gyfrwng yr
iaith Gymraeg, i holl ieuencid
Cymru ddatblygu'n ddinasyddion
cyflawn hyderus.

Rydym yn fudiad unigryw ac yn cynnig
profiadau chwaraeon, celfyddydol,
preswyl, dyngarol, awyr agored,
rhyngwladol, prentisiaethau a gwirfoddoli
i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Er sefydlu yn 1922, mae'r Urdd wedi
meithrin cenedlaethau o bobl ifanc i
fod yn falch o'u gwlaid, yn agored i'r
byd ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith
a'n diwylliant, yn ogystal â meddu
ar y gwerthoedd byd-eang y parchir
ying Nghymru. Mae dros 4 miliwn o
ieuencid Cymru wedi manteisio ar ein
gwasanaeth dros y ganrif ddiwethaf.

10 words

We are Urdd Gobaith Cymru.
Wales's largest youth organisation.

50 words

We are Urdd Gobaith Cymru.
Wales's largest youth organisation.

Our aim is to ensure opportunities
and experiences, through the medium
of Welsh, for all the young people of
Wales to develop into confident citizens.

We are a unique organisation which
offers sporting, arts, residential,
humanitarian, outdoor pursuits,
international, apprenticeships and
volunteering experiences for children
and young people in Wales.

100 words


We are Urdd Gobaith Cymru.
Wales's largest youth organisation.

Our aim is to ensure opportunities
and experiences, through the medium
of Welsh, for all the young people of
Wales to develop into confident citizens.

We are a unique organisation which
offers sporting, arts, residential,
humanitarian, outdoor pursuits,
international, apprenticeships and
volunteering experiences for children
and young people in Wales.

Since establishing in 1922 we have
nurtured generations of young people
to be proud of their country, open
to the world, and an embodiment of
our language and culture, as well as
having the global values respected in
Wales. Over 4 million young people
in Wales have benefited from our
service over the last century.

Y Logo | The Logo



Y Logo | The Logo

Mae'r canllawiau brand hyn wedi'u datblygu gan yr Urdd er mwyn rhoi arweiniad ar y defnydd cywir o'r logo a'r brandio.

Mae'r Urdd yn cadw hawlfraint y logo, y brand ac unrhyw enwau cysylltiedig. Dylech gael caniatâd ysgrifenedig gan yr Urdd cyn atgynhyrchu unrhyw ran o'r logo, brand neu unrhyw enwau cysylltiedig.

Gan fod y logo mor adnabyddus a gweladwy, mae'n hanfodol ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson, heb ei addasu, lle bynnag fo'n bosib.

Dylid defnyddio logo lliw llawn lle'n bosib. Pan yn cynhyrchu gwaith ar gyfer argraffu un lliw, defnyddiwch y fersiynau du neu wyn o'r logo. Pan gaiff ei ddefnyddio yn y fformat gwyn, dylai'r lliw cefndir fod yn ddigon cryf i gynnig cyferbyniad uchel.

Gall y logo eistedd ar ddelweddau cyn belled nad yw'n ymyrryd â'r ddelwedd.

These guidelines are designed to give guidance on how to make correct use of the Urdd logo and branding.


The Urdd retains copyright of the logo, the brand and any associated marques. Please seek written permission from the Urdd before reproducing any part of the logo, brand or any associated marques.

As the logo is such a recognisable and visible device, it is vital that it is always applied consistently and without modification wherever possible.

The full colour logo should be used where possible. When producing work for single colour printing, use the black or white versions of the logo. When used in the white format, the background colour should be strong enough to offer a high contrast.

The logo can sit on imagery as long as it doesn't interfere with the image.

01



Urdd

02



Urdd


Y Logo | The Logo

Cysylltwch â'r Urdd os
bydd gennych unrhyw
ymholaethau neu gwestiynau
nad ydynt wedi'u hateb yn
y canllawiau hyn cysylltwch
a dylunio@urdd.org

Please contact the Urdd
should any queries or
questions arise that have
not been answered in
these guidelines contact
dylunio@urdd.org


- 03 - DU (AR GEFNDIR GOLAU)
04 - GWYN (AR GEFNDIR TYWYLL)
05 - DEFNYDD FEL BUG (Cornel gwaelod ar y dde)

03




Urdd

04



Urdd

05



Is-frandiau | Sub brands

Mae'r canllawiau brand hyn wedi'u datblygu gan yr Urdd er mwyn rhoi arweiniad i'r Darparwyr ar y defnydd cywir o'r logo a'r brandio.

Mae'r Urdd yn cadw hawlfraint y logo, y brand ac unrhyw enwau cysylltiedig. Dylech gael caniatâd ysgrifenedig gan yr Urdd cyn atgynhyrchu unrhyw ran o'r logo, brand neu unrhyw enwau cysylltiedig.

Cysylltwch â'r Urdd os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau nad ydynt wedi'u hateb yn y canllawiau hyn.

Gan fod y logo mor adnabyddus a gweladwy, mae'n hanfodol ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson, heb ei addasu, lle bynnag y bydd yn ymddangos.

These guidelines are designed to give guidance on how to make correct use of the Urdd logo and branding.

The Urdd retains copyright of the logo, the brand and any associated marques. Please seek written permission from the Urdd before reproducing any part of the logo, brand or any associated marques.

Please contact the Urdd should any queries or questions arise that have not been answered in these guidelines.


As the logo is such a recognisable and visible device, it is vital that it is always applied consistently and without modification wherever it appears.

PWYSIG | IMPORTANT


Dim ond pan fo'n fater o gost y gellir defnyddio'r fersiwn du neu wyn o'r logo. Er enghraifft, argraffiad argraffu un lliw, neu pan fod eglurdeb yn broblem.

The black or white versions of the logo may only be used where cost is an issue. For example, one-colour print runs, or where legibility would be an issue.

Adrannau | Departments



Ardaloedd | Regions



URDD GOBAITH CYMRU

Maint y logo, diogelu'r logo a chyd-frandio | Logo sizing, protection and co-branding


- Defnyddiwr fersiynau gwreiddiol o'r logo yn unig.
- Os na allwch ddod o hyd i'r fersiwn wreiddiol, cysylltwch gyda dylunio@urdd.org
- Ni ddylid ceisio ail-greu, newid nac addasu'r logo mewn unrhyw ffordd.
- Ar ddeunyddiau wedi'u cyd-frandio, gall logo'r Urdd ymddangos ar ben ei hun. Rhwch yr un amlygrwydd iddo os yw'n eistedd wrth ymyl unrhyw logos eraill.
- Os mai'r Urdd yw'r prif noddwr, dylai'r logo fod yn y safle amlycaf.
- Os ydych yn gwmni masnachol cysylltwch am ganiatâd i ddefnyddio'r logo, dylunio@urdd.org
- Maint lleiaf y gellir atgynhyrchu'r logo yw 14mm mewn uchder, fel a ddangosir ar y tudalenau canlynol.
- Mae angen i'r ardal ddiogelu o amgylch y logo fod yn o leiaf 15mm.
- Only use original logo versions.
- Contact dylunio@urdd.org for an original version of the required logo.
- Under no circumstances attempt to recreate, modify or adjust the logo in any way.
- On co-branded materials, you may use the logo on its own. Give it equal prominence if sitting next to any other logo.
- If the Urdd is the principal sponsor, it should occupy the most prominent position.
- If you are a commercial company please ask permission to use the logo but emailing dylunio@urdd.org
- The logo should never appear smaller than the 14mm minimum height, as shown on the following pages.
- The protection area required around the logo is 15mm.

Os oes angen cynnwys mwy nag un o logos yr Urdd ar yr un dyluniad, sicrhewch fod maint y tribanau yn gyfartal.


If more than one of the Urdd's logos need to be displayed next to each other, care must be taken to ensure the size of the 'triban' (triangle) is equal.

Maint lleiaf logo | Logo minimum size

Testun ar un linell
One line of text




Testun ar ddwy linell
Two lines of text



Ardal diogelu'r logo | Logo protection area



Lliwiau | Colour



Prif Pallette Lliwiau | Primary Colour Pallette

Mae tri lliw craidd ar gael: Siarcol, Gwyrdd a Choch. Gellir defnyddio'r lliwiau hyn ar draws pob cymhwysiad, o adroddiadau i stondinâu arddangos.


Mae defnydd deallus o ofod gwyn hefyd yn bwysig. Gall sicrhau bod cynlluniau yn fwy ystyriol, clir a deniadol.

Os bydd angen, gellir defnyddio gwerthoedd arlliwiedig o'r lliwiau hyn lle y bo'n briodol i greu ymddangosiad ysgafnach.

Three core colours are available: Charcoal, Green and Red. These colours can be used across all applications, from reports through to display stands.

Informed use of white space is also important it can make designs become more considered, uncluttered and engaging.

Tinted values of these colours can be used where appropriate to create a lighter approach if desired.



Lliwiau Eilradd

| Secondary colours

LLWYD: Lliw i gefndiroedd




GREY: for backgrounds

- 06 - Defnydd y logo (Du) ar gefndir llwyd golau
- 07 - Defnydd y logo (Du) ar gefndir llwyd canolig
- 08 - Defnydd y logo (Gwyn) ar gefndir llwyd tywyll


PANTONE Cool Gray 1 CP
 CMYK 4/2/4/8
 RGB 224/226/224
 HEX #EOE2EO

PANTONE Cool Gray 4 CP
 CMYK 12/8/9/23
 RGB 178/181/182
 HEX #b2b5b6

PANTONE Cool Gray 10 C
 CMYK 62/52/48/19
 RGB 99/102/106
 HEX #63666A



Cyfuno Lliwiau | Colour Combinations



Teipograffeg | Typography



Prif Teip | Primary Type

Gotham Rounded yw'r prif deip. Mae'n deip meddal, cyfeillgar ac eglur, a gellir ei ddefnyddio gyda phob math o ddeunyddiau a ddylunnir.

Gellir defnyddio pedwar pwysau gwahanol; Gotham Rounded Light, Book, a Medium. Mae llythrennau italig hefyd ar gael yn y pwysau hwn a gellir eu defnyddio pan fydd angen rhoi mwy o bwyslais.

The primary typeface is Gotham Rounded. It is a soft, friendly and legible typeface, which can be used in all instances of designed materials.

There are four specified weights which can be used; Gotham Rounded Light, Book, a Medium. Italics are also available in those weights and can be used where additional emphasis is required.

Gotham Rounded

1234567890

Light
Book
Medium

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I J L
L I M N O P Ph R Rh S T Th U W Y

a b c ch d dd e f ff g ng h i j l ll m n
o p ph r rh s t th u w y

**A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I J L
L I M N O P Ph R Rh S T Th U W Y**

**a b c ch d dd e f ff g ng h i j l ll m n
o p ph r rh s t th u w y**

Ffont ar gael ar y Mewnrhyd cyhoeddus yr Urdd / Typeface available on the Urdd's Public Sharepoint:

<https://urdd.sharepoint.com/:f/r/sites/MewnrhydCyfathrebu/Dogfennau%20a%20Rennir/Delweddau%20a%20Brand/Ffont/Gotham%20Rounded?csf=1&web=1&e=SWFr7d>

Teip eilradd | Secondary typeface

Arial yw'r teip eilradd, a gellir ei ddefnyddio mewn cymwysiadau fel llythyrau, cyflwyniadau Power Point a deunyddiau eraill na chânt eu dylunio.

The secondary typeface is Arial, this typeface can be used in applications such as letters, powerpoint presentations and other non-designed materials.

Arial
1234567890
Regular
Bold

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I J L Ll M
N O P Ph R Rh S T Th U W Y


a b c ch d dd e f ff g ng h i j ll m n o p
ph r rh s t th u w y

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I J L Ll
M N O P Ph R Rh S T Th U W Y

a b c ch d dd e f ff g ng h i j ll m n o
p ph r rh s t th u w y

Ffont ar gael ar y Mewnrhyd cyhoeddus yr Urdd / Typeface available on the Urdd's Public Sharepoint:
<https://urdd.sharepoint.com/:f/r/sites/MewnrwydCyfathrebu/Dogfennau%20a%20Rennir/Delweddau%20a%20Brand/Ffont/Arial?csf=1&web=1&e=q8Wvgp>

Canllaw ysgrifennu | Writing Style guide



Cyflwyniad | Introduction

Mae sut rydym ni'n ysgrifennu a siarad yn hollbwysig i'n llwyddiant fel sefydliad.

Mae ein brand yn cael ei gyfleo drwy'r ffordd rydym yn cyfathrebu yn ysgrifenedig o ran iaith a thôn.

Mae angen i ni wneud yn siŵr bod ein cynulleidfa yn ddeall yr hyn yr ydym yn ei ddweud wrthynt neu'n gofyn iddynt ei wneud.

Rydym hefyd eisiau sicrhau bod ein cyfathrebu yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn sefydliad sy'n cefnogi, yn parchu ac yn ymbweru.

How we write and speak is vital to our success as an organisation.

Our brand is conveyed in the way in which we communicate and write through our language and tone of voice.

We need to make sure that our audiences understand what we are telling them or asking them to do.

We also want to ensure that our communication reflects the fact that we are an organisation which supports, respects and empowers.

Tôn | Tone of voice

Dylid siarad mewn ffordd gynnes, cyfeillgar ac hyderus.

Dylid osgoi ysgrifennu mewn tôn rhy swyddogol.

Y peth pwysicaf i'w gofio yw eich cynulleidfa:

- Ar gyfer pwy ydych chi'n ysgrifennu?
- Pa fath o ymateb ydych chi'n edrych amdano?
- Beth ydych chi am iddyn nhw ei wneud neu ei ddeall?

Rhan graidd eich cyfathrebu fydd y 'galwad i weithredu'. Beth ydych chi eisbau i'w ddigwydd o ganlyniad i'ch cyfathrebu?

Mae angen i chi wneud hyn mor glir a phendant â phosib ac mae angen i chi wneud y ffordd o ymateb mor glir a hawdd â phosib.

Speak in a warm, friendly and confident manner.

Avoid writing in a tone that feels too official.

The most important thing to remember is your audience:

- Who are you writing for?
- What kind of response are you looking for?
- What do you want them to do or understand?

The core part of your communication will be the 'call to action'. What do you want to happen because of your communication?

You need to make this as clear and purposeful as possible, and you need to make the way to respond as clear and easy as possible.

Arddull | Style

Dylai ein harddull ysgrifennu fod yn:

Gryno:

Peidio defnyddio gormod o eiriau.
Cadw hyd brawddegau o dan 20 gair.
Cadw hyd paragraff i bum
brawddeg neu lai

Clir:

Defnyddio iaith pob dydd, gramadeg
cywir, darllen dros y cynnwys i wneud
yn siwr eich bod chi'n deall

Cyfeillgar:

Ystyried pwy yw eich cynulleidfa
(plentyn / oedolyn?). Defnyddiwch 'fi'
'ni' 'chi' i wneud yr ysgrifennu'n bersonol.
Ni ddylid cyfeirio ar yr Urdd yn y
trydydd person.

Our writing style should be:

Concise:

Do not use more words than it needed.
Keep the length of your sentences
below 20 words. Keep the length of your
paragraphs to no more than five sentences.

Clear:

Use everyday language, ensure grammar
is correct, read over the content to make
sure you understand it

Friendly:

Consider your audience (a child/parent?).
Use 'me' 'us' 'you' to make the writing
more personal. Avoid referring to the
Urdd in the third person.

Ysgrifennu cynhwysol | Inclusive writing

Mae'r Urdd i bawb.

Mae angen i'n iaith ac arddull fod yn groesawgar, yn gynhwysol ac yn ddiuedd.

The Urdd is for all.

Our language and style need to be welcoming, inclusive and unbiased.

Anableddau a chyflyrau meddyliol

Dylid defnyddio:

- pobl sy'n byw ag anabledd neu berson anabl
- pobl gydag anawsterau dysgu
- defnyddwyr cadair olwyn
- cyflwr iechyd meddwl
- problemau iechyd meddwl

Tras, Ethnigrwydd, Crefydd a Chenedl

Byddwn yn cyfeirio at dras, crefydd ethnigrwydd neu genedl rhywun dim ond os yw'n berthnasol i'w sefyllfa.

Rhywioldeb a Hunaniaeth rhywiol

Dylid ysgrifennu cynnwys sy'n niwtral o ran rhywioldeb ble mae'n bosibl. Dydyn ni ddim yn labelu unrhyw un o ran eu rhywioldeb nac eu hunaniaeth rhywiol.

Dylid defnyddio 'nhw' i osgoi dweud 'fo' neu 'hi' ble mae angen bod yn niwtral.

Medical disabilities and mental health

Use:

- people living with a disability or a disabled person
- people with learning difficulties
- wheelchair users
- mental health condition
- mental health problems

Ethnicity, religion and nationality

Refer to a person's origin, religion or nationality only if it is relevant to their situation.

Sexuality and sexual identity

Write content that is neutral in terms of sexuality where possible. Don't label anyone in terms of their sexuality or their sexual identity.

Use 'they' to avoid saying 'he/she' when you need to be neutral.

Strwythur | Structure

Cynulleidfaoedd

Mae'n bwysig addasu'r iaith ar gyfer y gynulleidfa a'r cyfrwng. Mae ffyrdd gwahanol o gyfathrebu trwy lythyr, gwefan, pamffled, CRM neu gyfryngau cymdeithasol.

Fel rheol gyffredinol, ysgrifennwch fel petaech chi'n cyfathrebu â phlentyn 12 oed, gan ofalu peidio swnio'n nawddoglyd.

Y Llais actif

Fe ddylech chi anelu at ysgrifennu yn y 'llais actif'. Y ffordd symlaf o wneud hyn yw ceisio ysgrifennu yn yr un ffordd ag yr ydych chi'n siarad. Mae'r llais actif yn rhoi'r neges bwysicaf ar ddechrau'r frawddeg ac nid yw'n defnyddio geiriau nac iaith ddiangen. Dylid osgoi defnyddio tafodiaith.

Mae'r llais actif yn rhoi tri ffactor allweddol i'ch ysgrifennu:

- Ystyr cliriach, felly mae siawns well y bydd eich cynulleidfa yn ei ddeall
- Yn fyrrach, felly mae pobl yn fwy tebygol o gymryd yr amser i'w ddarllen
- Haws i'w ddarllen, yn eu gwneud yn fwy cofiadwy i ddarllenwyr.

Audiences

Your language needs to be tailored to our audience and the media you're using. This is because, there are different ways of communicating through a letter, website, pamphlet, CRM or social media.

As a rule, write as if you were communicating with a 12-year-old child, taking care not to sound patronising in any way.

The active voice

You should aim to write in the 'active voice'. The most straightforward way to do this is to try to write in the same way as you speak. The active voice puts the most important message at the start of the sentence and does not use unnecessary words or language. Do not use dialect.

Using the active voice will give your writing three key factors:

- Clearer meaning, so there is a better chance that your audience will understand it
- Shorter, so people are more likely to take the time to read it
- Easier to read, makes it more memorable for readers

Gwefannau defnyddiol i'ch helpu i ysgrifennu yn glir a chywir

/ Useful websites to help you write clearly and accurately:

Cymraeg Clir - Prifysgol Bangor

<https://www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/cymraeg>

Plain English Campaign

<https://plainenglish.co.uk/>

Techneg iaith | Language technique

Priflythrennau
Dylid defnyddio prif lythrennau yn ofalus. Mewn ail gyfeiriad at sefydliad, defnyddiwch lythrennau bach lle rydych chi'n cyfeirio ato ond ddim yn defnyddio ei enw llawn.

Lleoliadau

Mae enwau llefydd yn a siroedd yn cael prif lythyren, e.e. Caernarfon, Gwynedd.

Mae gwledydd yn cael prif lythrennau, e.e. Cymru, Lloegr ond nid rhanbarthau, ee gogledd Cymru, de Lloegr.

Teitlau Swyddi

Dylid defnyddio prif lythrennau pan y cyfeirio at y swydd, e.e. Prif Weithredwr, Swyddog Cymunedol.

Atalnodi a Choma

Mae'r coma yn tueddu i gael ei orddefnyddio. Ceisiwch ysgrifennu brawddegau byr, mwy bachog a pheidiog defnyddio mwy na dau goma. Bydd hyn yn gwneud eich dogfen yn haws i'w darllen.

Ymarfer defnyddiol ar gyfer gosod atalnodau yw darllen y frawddeg yn uchel a chlywed lle mae'r saib naturiol yn disgyn.

Yn gyffredinol, dylid osgoi italics. Gall fod yn anodd i ddarllen i rai pobl. Os oes angen pwyslais trwm, defnyddiwch bold.

Ampersand (&)

I'w ddefnyddio mewn teitl ffurfiol yn Saesneg yn unig - Health & Safety Executive, ac nid yn lle 'a' yn Gymraeg ac 'and' yn Saesneg.

Dyddiadau

Yr arddull safonol yw 24 Ebrill 2013.

Misoedd a thymhorau

Mae pob mis yn cael llythyren fawr. Nid oes angen llythyren fawr ar gyfer gwanwyn, haf, hydref neu gaeaf. Nodwch y gwahaniaeth rhwng mis Hydref a thymor yr hydref.

Amser

Defnyddiwch am a pm yn Gymraeg a Saesneg (termau Lladin ydy nhw felly dim angen poeni am yr iaith).

Mae pobl yn tueddu i ddeall hyn yn hytrach na'r cloc 24 awr.

Mae 6pm ei hun yn ddigon. Does dim angen dweud '6 o'r gloch y nos' neu 6yh, 6yb.

Rhifau

Sillafwch rhifau o dan ddeg oni bai eu bod yn rhan o swm ariannol neu uned fesur (£5 neu 8 tunnell) pan yn ysgrifennu testun hir. Mae hi'n iawn defnyddio rhifau mewn posteri | dyluniadau syml i'r cyfryngau cymdeithasol.

Defnyddiwch y ffigwr uwchlaw 10.

Rhestr bwledi

Peidiwch a rhoi priflythyren ar ddechrau pob bwled a rhoi atalnod llawn ar ddiwedd y rhestr.

Ebychnod!!!

Mae angen bod yn ofalus o ddefnydd yr ebychnod. Nid yw'n adidas mewn bob darn o gynnwys, ond mae'n iawn ar gyfer defnydd anffurfiol neu pan yn defnyddio hiwmor.

Capital letters

Capital letters should be used with caution. In a second reference to an organisation, use lower case letters where you refer to but do not use their full name.

Locations

The names of places in and counties have a capital letter, e.g. Caernarfon, Gwynedd.

Countries have capitals, e.g. Wales, England but not regions, e.g. north Wales, southern England.

Job titles

Use capitals when referring to the post, e.g. Chief Executive or Community Officer.

Punctuation and Commas

The comma tends to be overused. Try writing short, snappy sentences using no more than two commas. This will make your document easier to read.

A useful exercise is reading the sentence aloud and listening to where the natural breaks fall.

Generally, avoid italics. They can be difficult to read for some people. If heavy emphasis is required, use bold.

Ampersand (&)

This is for use in a formal title in English only - Health & Safety Executive, not to replace 'a' in Welsh and 'and' in English.

Dates

The standard style is 24 April 2013.

Months and seasons

Each month is given a capital letter. A capital letter is not required for spring, summer, autumn or winter. Note the difference in Welsh between Hydref (month of October) and hydref (the autumn season).

Time

Use am and pm in English and Welsh (they are Latin terms so no need to worry about the language).

People tend to understand this better rather than the 24-hour clock.

6pm itself is enough. There is no need to say '6 o'clock at night' or 6pm (or 6yh in Welsh).

Numbers

Spell numbers under ten unless they are part of a monetary amount or unit of measure (£5 or 8 tonnes) when writing long pieces of writing. Figures can be used in posters and social media posts.

Use the figure for numbers 10 and above.

Bulleted lists

Do not use capital letters at the beginning of each bullet and use a full stop at the end of the list (the last point).

Exclamation Mark!!!

Care needs to be taken of the use of the exclamation mark. It is not suitable in all communication but is fine for informal use or where humour is being used.

Defnydd o iaith, chanllaw ysgrifennu a gosodiad testun

| Language use, writing style guide and setting type

Mae Polisi iaith Urdd Gobaith Cymru yn nodi mai Cymraeg yw iaith swyddogol y Mudriad. Rhaid pedio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ffont, fformat, lliw, maint, eglurder, amlygrwydd nac ansawdd.

Mae canran helaeth o waith dylunio yr Urdd yn ddwyieithog, ac mae angen ystyried pob sefyllfa wrth gyfathrebu â'n haelodau, eu rhieni / gwarcheidwad, ein harweinyddion, neu unrhyw gynulleidfa arall yn enw'r Urdd.

Arfer da wrth ysgrifennu cynnwys, cyfieithu a chreu testun dwyieithog:

- Dylid gwahaniaethu rhwng yr ieithoedd drwy ddefnyddio lliw trymach ar gyfer y Gymraeg o gymharu â'r Saesneg.
- Mae prawfddarllen yn hanfodol. Rhaid caniatáu digon o amser i wneud hyn yn drylwyr, hyd yn oed os yw'r ddogfen yn gymharol fach. Gall camgymeriadau ieithyddol adlewyrchu'n wael ar y mudriad.
- Gwnewch yn siŵr fod yr arddull a chywair yn gweddu'r gynulleidfa darged, e.e. plant, pobl ifanc, rhieni / gwarcheidwaid, athrawon, dysgwyr Cymraeg, y di-Gymraeg.
- Dylid dehongli'r testun yn wreiddiol a chreadigol yn hytrach na chyfieithu'n slafaidd. Dylid sicrhau bod y cyfieithiad yn cyfleu'r ystyr a'r neges ond hefyd yn llifo'n rhwydd ac yn dangos ôl meddwl.

Urdd Gobaith Cymru's Language Policy states that the organisation's official language is Welsh. The Welsh language should be treated no less favourably than the English language with regards to font, format, colour, size, clarity, prominence or quality.

A large percentage of the Urdd's design work is bilingual, and this must be taken into consideration when communicating with our members, their parents / guardians, our leaders or any other audience in the name of the Urdd.

Good practice when creating content, and creating bilingual texts:

- A different colour should be adopted for the text in each language in order to separate languages, e.g Welsh in bold and English in lighter typeface.
- Proofreading is essential, and sufficient time must be allowed for it to be done thoroughly, even if the document is comparatively small. Misspellings and such errors can reflect badly on the organisation.
- When writing the content, make sure the style and tone suits the target audience, e.g. children, youngsters, parents / guardians, teachers, Welsh learners, non-Welsh speakers.
- The text should be interpreted in the original style rather than translating it word for word. It should be ensured that the translation conveys the meaning and the message, but it should also flow freely and is properly thought-out.

Defnydd o iaith, chanllaw ysgrifennu a gosodiad testun
| Language use, writing style guide and setting type

Mae'n bwysig peidio â chymysgu'r ddwy iaith yn anghyson ac ar hap. Mae angen gwahanu a sicrhau y gellir gweld y ddwy iaith yn glir, fel yn rhai o'r cynlluniau a geir isod: fesul bloc, colofnau cyfochrog, neu dop a gwaelod.


It is important that the two languages are not mixed in an inconsistent or haphazard way. Ensuring that both languages are separated and easily identified is more critical if the following formats are chosen: block by block, parallel columns, or top and bottom.

ENGREIFFIAU | EXAMPLES


Cefn wrth gefn / Back to back




Wyneb i waelod / Tilt and turn




Colofnau cyfochrog / Parallel columns



Tudalennau cyfochrog / Parallel pages




Fesul bloc / Block by block



Top a gwaelod / Top and bottom



Defnydd Lluniau | Use of Images



Delweddau a delweddau i'w hargraffu

Images and images for print

Dylid defnyddio ffotograffiaeth drawiadol ac egniöl i gyfleu pob agwedd ar waith a gweithgarwch yr Urdd - boed yn ddelweddau sydd o fewn darn o waith print neu'n cefnogi negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r lluniau ar y dudalen nesaf yn enghreifftiau da o'r arfer yma.

Mewn gwaith print, dylid defnyddio delweddau pwrrpasol sydd wedi'u leoli a'u tocio (ble bo'r angen) yn ddynamig, i gyfleu a darlunio'r pwnc neu'r neges allweddol. Gellir defnyddio penawdau a nifer cyfyngedig o ddelweddau cefnogol i ategu'r rhain ond ni ddylid gorlenwi clorau a thudalennau dwbl gyda delweddau 'llenwi' llai, gan y bydd y rhain yn tynnu oddi ar y ddelwedd fawr, allweddol. Er mwyn eu gwneud mor effeithiol â phosib, dylid gadael digon o ofod o amgylch y delweddau a chorff y testun.

**Wrth gomisiynu ffotograffiaeth,
cofiwch gynnwys cymaint o
wybodaeth yn y briff â phosib:**

- Pa union fath o luniau yr hoffech eu cael o'r diwrnod? Gallai'r delweddau a gymerir cael eu defnyddio a'u rhannu am flynyddoedd, felly sicrhewch fod amrywiaeth eang o ddelweddau yn cael eu cymryd ar y diwrnod.
- Nodwch ar gyfer beth fydd y lluniau'n cael eu defnyddio. Byddwch mor benodol â phosib - y wefan, y cyfryngau cymdeithasol, baneri hysbysebu, deunyddiau printiedig, baneri pull-up, ayyb. Po fwyaf o fanylion a roddwch, y gorau oll.

Striking and energetic photography should be used to illustrate all aspects of the Urdd's work and activity, whether they're images within a printed publication or pictures used to support messages on social media. The images overleaf are good examples of this practice.

Large images, dynamically positioned and cropped (if needed) should be used in publications to deliver and illustrate the key subject or message. These can be supported by headlines and a limited number of supporting images but covers and spreads should not be overfilled with a collection of smaller, 'filler' images, as these will only detract from the key image. To maximise the impact of their placement within the page's layout, the images and body text should be framed with generous amounts of space.

**When commissioning photography,
remember to include as much
information in the brief as possible:**

- What would you like to capture on the day? The images taken might be used and shared for years, so please maximise the variation of images that are taken on the day.
- Specify what the photos will be used for. Include specifics such the website, social media platforms, advertising banners, printed materials, pull-up banners, etc. The more details you can give, the better.

Cysylltwch gyda'r adran gyfathrebu i gael templed o briff i ffotograffydd | Comtact the communications team for a template of a photography brief.

Enghreifftiau o ddelweddau da / defnydd da o ddelweddau

| Examples of good quality / good use of images

LLUNIAU EGNÖL, HWYLOG O GRWPIAU NEU UNIGOLION
Mae'n hanfodol bod ein lluniau yn cynnwys amrywiaeth.

ENERGETIC, POSITIVE PICTURES OF GROUPS OR INDIVIDUALS
It's important that our imagery includes diversity.



Canva

Gellir defnyddio Canva i greu dyluniadau syml e.e. posteri neu graffeg i'w defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol.

Dylid cynnwys logo'r Urdd neu logo adran benodol ar pob dyluniad.

Mae 'Brand Kits' a templedi'r Urdd ar gael yn Canva, sy'n cynnwys logos a palet lliwiau.

Mae Canva Pro ar gael i holl staff yr Urdd. Cysylltwch gyda'r adran gyfathrebu i greu cyfrif ar eich rhan ac i drefnu hyfforddiant.

Ni ddylid defnyddio Canva ar gyfer gwaith print - cysylltwch gyda dylunio@urdd.org i wneud cais am waith os angen creu dyluniad sy'n cael ei argraffu'n broffesiynol.

Canva can be used to create simple designs e.g. posters or graphics social media use.

The Urdd logo or a specific department logo should be included on all designs.

Urdd 'Brand Kits' and templates are available in Canva, which include logos and color palettes.

Canva Pro is available to all Urdd staff. Contact the communications department if you wish to create and for basic training.


Canva should not be used for print work - contact dylunio@urdd.org with your requirements if you need to create a design to be printed professionally.

Homepage > Brand > Brand Templates

The image contains three screenshots of the Canva interface:

- Top Screenshot:** Shows the 'Brand Kits' section. It features a sidebar with 'Templates', 'Elements', 'Brand', 'Uploads', 'Projects', 'Apps', and 'Chwaraeon ...'. Below the sidebar, there's a search bar and a grid of eight brand kits. Each kit includes a preview image, its name, and a '...' button. The kits shown are: Urdd Gobaith Cymru, Gemau Stryd, Rygbi 7s - WRU | Urdd 2024, Y Cwmni - Theatr, Neges Heddwch 2023, Pentre Ifan, Chwaraeon, and Aelodaeth 2023-24.
- Middle Left Screenshot:** Shows the 'Design Section > Brand Kits' view. It has a similar sidebar to the top. The main area displays a 'Brand Templates' section with a preview of 'Pennawd CY Pennawd ENG' and a 'Logos' section with a preview of the Urdd logo. Below these are input fields for 'TITLE', 'SUBTITLE', and 'HEADING'.
- Middle Right Screenshot:** Shows the 'Select a Brand Kit' dialog box. It has a search bar and a grid of four brand kits. The 'Rygbi 7s - WRU | Urdd 2024' kit is highlighted with a purple border. A 'Select Brand Kit' button is at the bottom right.
- Bottom Screenshot:** Shows the 'Brand Templates' section on the homepage. It has a sidebar with 'Brand Kits', 'Brand Templates', and 'Brand Controls'. The main area shows a grid of various brand templates, each with a preview image, name, and file type (e.g., Flyer (A4), Poster Clyb). Examples include 'Glas Golau V2 - Templed ...', 'V2 [gyda cost] Holl Glybi...', 'Glas Tywyll V2 - Templed ...', 'Gwyrdd V2 - Templed Cl...', 'Coch V2 - Templed Clwb', 'Chwaraeon - Holl Glybia...', 'Copy of Chwaraeon - Hol...', 'GOGLEDD CYMRU - Temp...', 'Coch DE CYMRU - Temp...', 'Gwydd - CYST. Cyfryngau...', 'Coch - CYST. Cyfryngau ...', and 'Glas - CYST. Cyfryngau ...'.

Argraffu | Printing



Argraffu | Printing

Mae defnyddio papur o ansawdd yn hollbwysig i sicrhau canlyniad argraffu gorffenedig o safon. Rydym yn argymhell y dylai pob deunydd wedi ei argraffu ar gyfer yr Urdd gael ei atgynhyrchu ar stoc papur di-got pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

CEIR ISOD RHESTR O ESIAMPLAU:

Papur pennawd: 100gsm Uncoated

Taflenni: 100gsm - 120gsm Uncoated

Poster: 120gsm Uncoated

Tystysgrifau: 170gsm Uncoated

Cardiau busnes: 350gsm Uncoated

Ar adegau, mi fydd angen ystyried defnyddio papur gloss i dynnu sylw at y cynnwys, e.e. ar gyfer clawr rhaglen. Fodd bynnag, mae argraffu ar bapur di-got yn hwyluso'r darllen, ac mae hefyd modd ysgrifennu arno.

Mae'r Urdd wedi ymrwymo i arferion sy'n gymdeithasol ac yn amgylcheddol gyfrifol ac argymhellwn y dylid defnyddio papur amgylcheddol gyfeillgar pryd bynnag y bo hynny'n bosibl ar gyfer pob llenyddiaeth a geir ei argraffu.

Using high quality paper is of upmost importance to ensure the finished printed product is of standard. We suggest that each and every design sent to print on behalf of the Urdd should be printed on Uncoated paper whenever possible.

HERE'S A LIST OF EXAMPLES:

Headed paper: 100gsm Uncoated

Leaflets: 100gsm - 120gsm Uncoated

Posters: 120gsm Uncoated

Certificates: 170gsm Uncoated

Business cards: 350gsm Uncoated

At times, it will be necessary to consider using a gloss paper to highlight the page's content, e.g. for a programme's cover. However, printing on Uncoated paper makes the text easy to read, and you can also write on it.

The Urdd believes that it is our responsibility as an organisation to be a good steward of our environment and maintain eco-friendly printing practices whenever possible.

